

COFNODION NYRSIO A PHROFFESIYNAU MEDDYGOL ERAILL

Ydych chi wedi darganfod gweithiwr iechedd proffesiynol yn eich teulu? Efallai bod un o'ch cyndadau, a oedd yn nyrsio, ar goll o gofrestr 1939? Mae'n bosib y cawson nhw eu hymrestru gan Fyddin Alldeithiol Prydain. Dyma rai dolenni gwych i'ch helpu i ddechrau chwilio am eich gweithwyr iechedd proffesiynol.

Mae casgliadau www.Ancestry.co.uk yn cynnwys:

Cofrestrau Meddygol y DU, 1859-1959;
Cyfeiriaduron Meddygol y DU ac Iwerddon, 1845-1942;
Cofrestrau Nyrsio'r DU ac Iwerddon, 1898-1968;
Cofrestrau Nyrsys Sefydliad Nyrsio'r Frenhines, 1891-1931;
Ceisiadau Nyrsio'r Alban, 1921-1945;
Cofrestrau Bydwagedd y DU, 1904-1954;
Cofrestrau Deintyddion y DU, 1879-1942;
Cofrestrau myfyrwyr y GMC, 1882-1937;
Cofrestrau Ffisiotherapi, 1895-1980.

Nyrsys y Fyddin Brydeinig, 1914-1918

Mae'r [Archifau Cenedlaethol](#) wedi llunio sawl arweiniad ar gyfer ymchwilio gofod iechedd, ysbytai, meddygon a nyrsys, meddygon milwrol a gwirfoddolwyr adeg y rhyfel. Mae'r dudalen hon yn cynnwys dros 15,000 o gofnodion gwasanaeth nyrsys a wasanaethodd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, gan gynnwys y rhai o Wasanaeth Nyrsio Milwrol Ymerodrol y Frenhines Alexandra a Gwasanaeth Nyrsio'r Fyddin Dirioogaethol, y gallwch chwilio amdanynt a'u lawrlwytho. Gall y rhain ddatgelu lle'r oedd nyrs yn hyfforddi, ynghyd â geiradau, ysbytai, ambiwlansys neu eu hunedau meddygol roeddent yn gwasanaethu ynddynt, a hyd yn oed barn eu 'huwch-swyddogion' am eu gwaith.

[Coleg Nyrsio Brenhinol](#)

Mae Archifau'r Coleg Nyrsio Brenhinol wedi digideiddio cofnodion *Nursing Record/British Journal of Nursing* sy'n cynnwys y cyfnod 1888-1956 (Cyhoeddwyd y *Nursing Record* gyntaf yn 1888, gan ddod yn *British Journal of Nursing* o 1902). Gall haneswyr teulu chwilio'r gronfa ddata yn ôl enw neu yn ôl gair allweddol, a gellir pori trwy bob rhifyn fesul tudalen."

Maen nhw hefyd yn cynnig [gwasanaeth ymchwil](#) i haneswyr teulu sy'n chwilio am gofnodion ar gyfer nyrs benodol. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys cyfnod 1921-1968.

Mae casgliadau www.Findmypast.co.uk yn cynnwys:

Cofnodion [Ysbyty Bethlem](#),

Nyrsys a ymunodd â Gwasanaeth Nyrsio'r Fyddin 1881 - 1902

Aelodau cangen reolaidd Gwasanaeth Nyrsio Milwrol Ymerodrol y Frenhines Alexandra

Nyrsys a ymunodd â Gwasanaeth Nyrsio'r Fyddin 1881 - 1902

Aelodau cangen reolaidd Gwasanaeth Nyrsio Milwrol Ymerodrol y Frenhines Alexandra

Gwasanaeth Nyrsio a ymunodd 1903 - 1926

Nyrsys a aeth i Ffrainc gyda Byddin Aldeithiol Prydain ar ddiwedd 1939 tan ddechrau 1940.

Nyrsys a wasanaethodd yn Ysbyty Menywod yr Alban yn ystod y Rhyfel Mawr

Nyrsys Ysbyty Brenhinol Chelsea: dyma gofnodion nyrsys a gyflogwyd i ofalu am Bensiynwyr Chelsea 1856 - 1910

Cofrestr Feddygol 1913

Mae [FamilyRelatives](#) a [TheGenealogist](#) yn cynnig ystod o gofrestrau meddygol.

Mae [People's History of the NHS](#) yn cynnwys 'amgueddfa GIG rithwir' ac ardal ar gyfer aelodau lle gallwch rannu eich atgofion eich hun.

Mae'r [NHS at 70](#) yn brosiect hanes llafar gan brifysgol Manceinion sy'n cofnodi hanes y GIG o'i sefydliad hyd at y Coronafeirws.

Darparwyd gofal iechyd cyn y GIG yn aml gan ysbytai gwirfoddol, sydd wedi'u rhestru ar y gronfa ddata [Ysbytai Gwirfoddol](#) sydd wedi dyddio ond sy'n dal i weithredu. Yn yr un modd, gellir cael mynediad at hen [Gronfa Ddata Cofnodion Ysbyty](#) yr Archifau Cenedlaethol o hyd, ond nid yw'n cael ei diweddarau mwyach.

Mae gan [Kings College London](#) gofnodion y Sefydliad Nyrsio Frenhinol Prydain sy'n datgelu bywydau personol a gyrfaoedd hynod ddiddorol y rhai a oedd ymhlith y nyrsys cyntaf i ymuno â chofrestr broffesiynol ym 1890.

[Ysbytai a Gwirfoddolwyr y Groes Goch](#)

Mae gan yr [arweiniad Gen](#) hwn o gofnodion galwedigaethol meddygon, llawfeddygon a nyrsys eraill ragor o gyfeiriadau gwefan gwych i bori drwyddynt.

Mae gwefannau newydd yn dod ar-lein drwy'r amser ac mae cofnodion newydd yn cael eu hychwanegu at y prif safleoedd ymchwil. Mae rhai gwefannau yn caniatáu i chi danysgrifio i gael y newyddion diweddaraf am eu casgliadau diweddaraf.

Gweler ein harweiniad ar Ysbytai a Gwallgofdai ar gyfer gwybodaeth sydd hyd yn oed yn fwy defnyddiol.